Ein cyf:
Eich Cyf:

Kirsty Williams AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Tachwedd 2009

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd gennych yn ystod y Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru ar 10 Tachwedd.

Rwy'n ymwybodol iawn o bwysigrwydd gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol sy'n sicrhau bod plant ac oedolion hyglwyf yn parhau i fod yn ddiogel yn yr amgylchedd gofal iechyd. Mae dogfennaeth gynhwysfawr wedi'i chyhoeddi i'r GIG ar y materion hyn a disgwylir y bydd sefydliadau'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a gorfodol.

Yn dilyn cyhoeddi adroddiadau Safonau Gofal Iechyd ar gyfer 2008/09 ac adroddiad Arolygiaeth Iechyd Cymru 'Diogelu ac Amddiffyn Plant yng Nghymru: Adolygiad o'r trefniadau mewn lle hyd ledled Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol Cymru', mae swyddogion wedi cyfarfod â'r Arolygiaeth i ofyn am ragor o fanylion ynghylch y modd y maent yn casglu data mewn perthynas â gwiriiadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol.

O ran bodloni gofynion Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 lansiwyd y Cynllun Fetio a Gwahardd newydd ar 12 Hydref 2009 a chaiff ei gyflwyno gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol. Mae ei reoliadau tynnach wrth wraidd strategaeth sy'n cynnig mwy o amddiffyniad i aelodau hyglwyf ein cymdeithas. Rydym wedi ceisio sicrwydd gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG i gadarnhau eu parodrwydd mewn perthynas â'r Cynllun Fetio a Gwahardd a'u cynnydd hyd yn hyn.

Bydd canlyniadau'r gwaith gydag Arolygiaeth Iechyd Cymru a Chyrff GIG ar gael yn fuan a'r bwriad yw ysgrifennu at holl Aelodau'r Cynulliad i roi'r diweddaraf ar y sefyllfa yn GIG Cymru.